Llên Natur

Bwletin Llên Natur

Golwg newydd ar y byd o'n cwmpas

Rhifyn 76 Mehefin 2014

Ychydig o gofnodion swyddogol o wenyn sydd gennym. `Roedd hwn yn eithaf llonydd yn y gwair ar y llwybr i lawr o ben Moel Wnion uwchben Aber (SH6525 7048, alt 465m. 25 Ebrill 2014). *Bombus monticola* yn wyddonol, *bilberry bee* neu *mountain bee* yw ei enw yn Saesneg. Fwy na thebyg, newydd ddod allan o'i chyfnod aeafgysgu oedd hon (brenhines?). Diddorol oedd gweld y llu o widdynod (mites?) ar ei chorff.

Eilir a Debbie Evans

Storm fawr 8-9 Rhagfyr 1886

8-9 Dec 1886 Severe storm. Deep depression (927mb) moved east across north Ireland/north England, severe to storm force gales, southwesterly over south Britain…. Many shipwrecks… lifeboat in Lancashire lost (27 out of 29 crew members drowned

Kington, J. (2010) Climate and Weather Collins

Ond beth am Gymru?

Aberdar, 8ed Rhag: Terrific storm swept over the country Much damage....Very rainy In returning from posting a letter, during a heavy storm [y ddau air olaf wedi eu tanlinellu] of hailstones I was knocked down by a cab in crossing Dean Street. Walked home allright. But felt from it afterwards.

Dyddiaduron Y Parch. Richard Llywelyn Headley

Caergybi, 9 Rhagfyr: gale was no less violent at Holyhead (than where 26 men of southport vol lifeboat crews were drowned) 3 vessels wrecked at Holyhead ss Avondale at penrhyn point, the norwegian barque dagmar in porth tywyn mawr and the liverpool ship pegasus on traeth y gribin Ivor Wynne jones Shipwrechs of north wales

9 Rhagfyr: Pigo tunell o datws; Mae hi yn wynt mawr iawn, a mae hi wedi bwrw, a chwuthu yn ofnadwy ers dyrniodau bellach.

Dyddiadur William Jones, Penbrynmawr, Penygroes, Arfon

9 Rhagfyr: Pigo tunallt o datws Mae hi yn wynt mawr iawn a mae hi wedi bwrw a chwythu yn ofnadwy ers dyrnodiau bellach

Dyddiadur ("Llyfr") William Jones, Penbryn Mawr, Penygroes Caernarfon

10 Rhagfyr , Penygroes, Arfon: Myned i Lan y Môr i nol gwman, a mi oedd yno walfa cynuched a Wal y Glyn [Glynllifon] mwy na mae neb yn ei gofio erioed; Mi aeth deuddeg o longa i'r lan yn Aberdyfi, Mi aeth Saith neu wyth i lan wrth Pwllheli.

Dyddiadur William Jones, Penbrynmawr, Penygroes, Arfon

O Lydaw

gan y ffotograffydd Gabriel Quéré

Y tywydd a Hanes

Pa mor gryf oedd dylanwad tywydd 1788 fel ysbardun i'r Chwyldro Ffrengig? Dyma flwyddyn sychder mawr yn Ffrainc, methiant y cynhaeaf, a gaeaf caled. Dyma'r gaeaf a achosodd galedi ar draws Ewrop, ac fe gynhaliwyd Ffair Rhew olaf ar yr afon Tafwys, a'r cyntaf ers hanner canrif. Dyma'r flwyddyn gyntaf gyda llaw yr adnabyddir hi fel "Blwyddyn Cynffon Sidan" ym Mhrydain, hynny mae'n debyg oherwydd caledi gaeaf yn Scandinafia (Lovegrove et al (1994)) .

A pha mor gryf oedd dylanwad Cynhaeaf Coll 1793 ar hynt Y Chwyldro Ffrengig (1789 - 1799) . Dyna'r math o gwestiwn sydd yn cael ei ofyn fwy fwy wrth i ffactorau amgylcheddol ddod yn rhan o brif lif naratifau hanes y Gorllewin. Mae'n debyg nad oedd y sychder mor amlwg yng Nghymru ond cafwyd heth gaeaf yma hefyd:
1788 yn y Tywyddiadur:
Cylchoedd smotiau haul: uchafbwynt (cylchran/amplitude 141.2 wedi ei wastadhau)

Cynffon Sidan "Cennad y Chwldro?" Llun Dewi Edwards, Dinbych 14 Rhagfyr 2010

1 Awst 1788, Llangollen: Heavy white clouds, but dispiriting as is the weather - we may thank God it is no worse - the Chanoine de Cambrai told us that the storms in France did more damage than the kingdom was likely to sustain from the internal feuds of which the English papers say so much a Year with the Ladies of Llangollen

25 Tachwedd 1788: Rhew Mawr Great Frost 1788 "The year 1788 was remarkable for a severe frost, which began Nov 25 and lasted exactly 7 weeks. On the 5th of January the Thermometer stood at 11° degrees below the freezing point. A fair kept on the Thames – puppet shows, wild beasts &c exhibited".

Trwy law Cerys Jones

Garth Meilo, Dinbych: Hanes cynffon sidan a saethwyd yn 1788 "Kill'd during the cold Frost in December, 1788, at GarthMeilio, in the County of Denbigh, by Mr. William Dod,of Edge, in Cheshire. It was perching in one of the Fir Trees in the Avenue to the House".

RD Roberts: British Birds Awst 1988

Llanilltyd Faerdre, 21 Rhagfyr 1788 : "We buried in Eglwys Ilan, from the Higher Boat in Lantwit Fardra, the woman of that House, being the wife of one of the Smiths of Eglwys Ilan, and they passed with her corps over Daff's River without danger, being frozen so hard."

Dyddiadur William Thomas, Michaelston-super-Ely 1762-1795 (yn Denning 1995) trwy law Cerys Jones,

12 Ionawr 1789, Llangollen: The most bitter Cold I ever remember, cutting, shaving wind, lead-coloured sky, snow blown from the trees in drifts [yr afon Dyfrdwy wedi rhewi'n gorn ar 1 Ionawr.] ...

A Year with the Ladies of Llangollen Gol Elizabeth Mavor

Mwy o gofnodion 1788-9 yn y Tywyddiadur

Bocsio mis Mawrth

Ysgyfarnogod yn ymladd yng Nghwm Dolgain, Trawsfynydd (24 Ebrill 2014) (Mwy yma)

Ewch yma i weld beth sydd gan Twm Elias i ddweud am y sgwarnog

Pry' gwenyn

Bombylius major dwi'n meddwl yw hwn, digon parod i rhywun fy nghywiro, gwarchodfa natur Glasgoed, Llanelwy. Ebrill 24

Alun Williams

Meddai ein arbenigwr John Bratton: There are two beeflies with dark leading edge to the wing. Bombylius major is by far the commoner. I've never seen the other.

Ar ol mymryn o ymchwil, yn ôl map dosbarthiad rhwydwaith yr NBN, B. major yw'r rhywogaeth mwyaf tebygol. Mae un cofnod o B minor yn ardal y Bermo yn unig yng Nghymru (Gol.)
One [bee fly] was flying actively at Bryn Pydew Nature Reserve near Llandudno, and several others were seen in the Conwy Valley round about 12 May 1980 (H.N. Michaelis).
MJ Morgan Nature in Wales gwanwyn1981 (gyda chaniatad CBNGC)

Neidr wair

Gwelais y neidr yma'n torheulo ar y clawdd yn ardal Mynytho/Nanhoron ble'r wyf yn byw. Byddaf yn arfer gweld nadroedd ar y clawdd yma'n flynyddol gan gynnwys Gwiber, ond heb weld yr un eto eleni. Roedd hon yn andros o hir.

Netta Pritchard

Tynnwyd y llun hwn yn Sain Ffagan ar 23 Tachwedd 1997 o gyw NEIDR FRAITH (neidr wair). Oedd y dyddiad hwyr ar gyfer cyw neidr yn eithriadol? Gofynnais i'r herpetolegydd Liz Howe: meddai Liz, "I've consulted my bible - the NN volume written by Beebee & Griffiths. Page 158 has a time bar diagram of the grass snake's annual cycle. It shows egg laying from late May through to mid August and hatching from early August through to late sept/beginning of October, so I guess your young one could be one of those late batches. Did you notice any vestigial egg sack at all?. It was also rather cool of course last summer [1997] so egg development would have been slower if not in optimal conditions for incubation. Apparently they lay only one clutch (note that some sand lizards in the south of England have started laying 2 clutches in recent warm years) - time to hatch and size of hatchling depends on incubation temperature- up to 64 days. hatchlings measure 16-20cm, 1 year olds are 25-30cm. - they don't mention anything about survival rate of hatchlings (30% of eggs are infertile). Presumably the later clutches/hatching snakes are less likely to put on the weight needed to survive the winter.

Yr Ymerawdwr

Dyma'r Ymerawdwr cyntaf i ni gael yma yn Golan, Dolbenmaen ers dechrau cofnodi gwyfynod. 22 Ebrill 2014. Tom Jones

Benyw yw hon, yn aros am ei cheiliog. Mi welwn hwn yn gwibio dros y grug yn chwilio am fferomonau yr ieir sydd yn stelcio yn y tyfiant. Mae'r llyfrau un ac oll yn cytuno bod yr ymerawdwr yn hedfan ym misoedd Ebrill a Mai. Popeth yn iawn efo cofnod Tom felly. Ond gwelodd Ieuan Roberts un yn niwedd Mawrth 2011. Meddai Ieuan: "Credaf mai Gwyfyn yr Ymerawdwr, Saturnia pavonia, yw hwn. Roedd yng nghyntedd Plas Tan y Bwlch ar y 26-3-2011". Cynnar yn sicr ond nid yn anhebygol, o ystyried gwanwyn eithaf mwyn y flwyddyn honno.
Mae 5 cofnod arall o oedolion yr ymerawdwr yn Ebrill/Mai yn y Tywyddiadur

Y Nyth [natur rhywiol]

Un o'r "jocs" mae rhywun yn ei gael o bryd i'w gilydd yn anisgwyl.. IDW
Wel da te! Un disgrifiad Cymraeg o'r rhan yma o gorff merch ydi "y nyth", e.e. "fuest ti ar y nyth neithiwr?" Engraifft o sut mae delweddau natur yn lliwio ein geirfa ni. Twm Elias

Creithio MWY

Gweddillion ac adferiad (cymharol) y tan ddiwedd Mawrth 2012 dwy flynedd wedyn. Tynnwyd 27 Ebrill 2014. Dyma gofnod o'r tan yn y Tywyddiadur: "...Tan mawr ar Cefn Du yr wythnos diwethaf [tua'r 30 Mawrth 2012] pan oedden ni i ffwrdd. Y gwasanaeth tân yno." DB [3 Ebrill 2012]
Duncan Brown

Roedd Dafydd ap Gwilym yn iawn, mae'n rhaid cael mwy nag un dyn I reoli tan – neu llanast am flynyddoedd fel hyn fydd hi:

Goddaith a roi'r mewn eithin,
Gwanwyn cras, mewn gwynnon crin
Anodd fydd ei ddiffoddi
Ac un dyn a'i hennyn hi.

Gwiber gwryw?

Neidar wedi sgwasho ar y lon. Mae hi yna ers tua'r 18fed o Ebrill - dw i ddim yn siwr o'r union ddyddiad. Cyfeirnod grid - 286264 [Tai Morfa, Porth Neigwl Anet Thomas

Cymharwch hwn â gwiber benywaidd Alun Williams
Males typically have a grey, creamy white or steely grey background colour. Females range from browns and yellows to brick red. Females are larger than Males. http://www.herpetofauna.co.uk/adder.htm

Llifogydd mis Mai

Ar ôl llifogydd yr 22ain Mai yng Nghwmbran a Phenarth, ewch yma i weld llifogydd eraill ym mis Mai yn ôl y Tywyddiadur

Haf gwlyb medda 'nhw' !

Nyth iar ddwr yn uchel uwchben y dwr - haf gwlyb medda 'nhw' !
Llun: Wil Williams

Dolffin trwyn potel

Dolffin trwyn potel wedi olchi fyny ym Mhorth Neigwl (281265) heddiw [4 Mai 2014].
Llun: Anet Thomas

Yn ôl adroddiad post mortem a gyhoeddwyd yn y Daily Post fe dagodd ar bysgodyn.

Graffiti ffawydd... a corn esgid

Patrwm graffiti ar hen ffawydden, Bulkeley Hill, Bulkeley, ger Wrecsam (8 Mai 2014)
Cyfrannwyd y llun gan Duncan Brown

Sylwch ar y ffordd mae'r cerfiadau dyddiedig (19)95, 1962 a 194?8 wedi eu stumio'n wahanol gyda thwf y goeden. Oes yna rhyw arwyddocad i'r ffaith eu bod nhw'n dilyn trefn amser am yn ol i lawr y goeden tybed? Celfyddyd ynteu fandaliaeth - cyfuniad o genedlaethau o raffitwyr, twf y goeden, a mympwy ffotograffydd ar ddiwrnod llwm!

A son am graffiti....

Flynyddoedd yn ôl gyrrais lun o`r corn esgid uchod i Llên Natur. Yn anffodus roedd safon y llun mor wael nes ei bod bron yn amhosib adnabod y gwrthrych, heb son am werthfawrogi`r crafiadau. Efalla y peth hynotaf amdano ydi ei oed, 1631(gan dybio ei fod yn gywir).
Nigel Owen Pitts

Onid sgrimsio yw'r math yma o waith celf? DB